

# “Derbyniwch”

*“Yr ydym ni, fel cydweithwyr, yn apelio atoch i beidio â gadael i’r gras a dderbyniasoch gan Dduw fynd yn ofer.” (adn. 1)*

## Beth am ddarlenn 2 Corinthiaid 6:1–13 ac yna myfyrio

Yr ydym am barhau i fyfyrio ar y syniad a gyflwynwyd ddoe, sef bod y gwerthoedd y mae’r Eglwys i’w hamddiffyn yn werthoedd sydd yn dal y byd at ei gilydd. Mae’r gwerthoedd hyn sydd wedi eu rhoi i bawb drwy’r Ysgrythur yn adlewyrchu’r gwerthoedd mwyaf y mae dynoliaeth erioed wedi eu derbyn. Rwy’n defnyddio’r gair ‘derbyn’ oherwydd ni allai neb erioed fod wedi eu dychmygu. Maent yn rhodd gan Dduw. Mae dynion yn yr unfed ganrif ar hugain sydd yn gwrthod y gwerthoedd hyn fel Esau yn ein dydd ni. Pobl sydd yn gwerthu eu hetifeddiaeth am fowlen o gawl.

Wrth deithio o Singapore i Kuala Lumpur ychydig fisoedd yn ôl, gadewais fy Meibl ar yr awyren ar ddamwain. Roedd yna nifer helaeth o nodiadau yn fy Meibl, nodiadau yr oeddwn wedi eu hysgrifennu wrth fyfyrio am oriau lawer. O fewn awr i lano, bu i mi hysbysu’r cwmni awyrennau ei fod ar goll. Ond mae’n debyg fod llyfrau a chylchgronau yn cael eu gadael yn aml gan deithwyr, ac mae’r rhai sydd yn dod i lanhau yr awyren yn eu taflu i’r bag ysbwriel. Roeddwn yn digalonni wrth feddwl am fy Meibl gwerthfawr yn cael ei daflu o’r neilltu gyda hen bapurau newydd a chylchgronau, ac eto, mae’n ddarlun clir o’r hyn mae pobl yn ein dydd ni yn ei wneud. Mae pobl heddiw yn taflu’r Beibl o’r neilltu, gan ei ystyried fel dim mwy na hen bapur newydd neu gylchgrawn sydd bellach wedi dyddio.

Mae papurau newydd wedi dyddio braidd cyn i’r inc sychu. Nid felly y Beibl, gan fod hwn yn rhoi i ni yr etifeddiaeth fwyaf gwerthfawr y mae y ddynoliaeth erioed wedi ei derbyn. Mae’n drist iawn i weld ein cenedlaeth yn chwilio am ystyr, ac eto’n anwybyddu’r egwyddorion a’r gwerthoedd mae ein Creawdwr wedi eu rhoi i ni er mwyn darganfod ystyr i fywyd. Unwaith eto, yr wyf am bwysleisio fod yr Eglwys i amddiffyn yr egwyddorion hyn, yr egwyddorion sydd yn gwneud bywyd yn ystyrlon. Os na fydd i’r Eglwys eu hysbysu a’i harddangos i’r byd, yna, ni thbyiaf fod yna fawr o obaith i’n byd.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Math. 10:1–18; Actau 4:18–37; 1 Cor. 15:1–3; 1 Ioan 1:1–4

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ydym ni wedi ei dderbyn?
2. Beth ddylem ei arddangos?

## Gweddi

Fy Nuw a fy Nhad, gofynnir llawer oddi wrth dy Eglwys, ac eto, yn gyffredinol, nid yw’n arddangos fawr iawn o’r rhinweddau hynny y dylai eu harddangos. Maddau i ni a chynorthwya ni, Arglwydd. Yn enw Iesu Grist. Amen.